Astudiaeth achos:
Grant Adnewyddu Menter

Rhanbarth
Sir y Fflint

Sector
Twristiaeth

Gwerth y prosiect
£4,548

DOG FRIENDLY DESTINATIONS

Mae'r cyfeiriadur teithio ar-lein hwn ar gyfer pobl sy'n caru cŵn yn creu brand dibynadwy yn y byd ffisegol a'r byd digidol.



Nid oedd lansio busnes teithio ar ddechrau pandemig Covid-19 yn 2020 yn waith hawdd. Roedd cyd-sylfaenwyr Dog Friendly Destinations, Rachel Southern a Lauren Jones, yn meddwl tybed a oedden nhw'n gwneud y peth iawn. Ond roedd eu hamseriad yn berffaith.

Cenhadaeth eu cylchgrawn ar-lein a'u cyfeiriadur teithio oedd chwilio am a rhannu'r llefydd gorau yn y DU i aros, bwyta a mynd lle roedd cŵn yn cael eu croesawu'n fawr - yn hytrach na dim ond eu caniatáu. Roedd eu neges "dim ci wedi'i adael ar ôl" yn taro tant go iawn.

"Cafodd llawer o bobl gŵn yn ystod y pandemig ac fe wnaethon ni helpu eu perchnogion i freuddwydio am fynd allan a mwynhau eto," meddai Lauren. "Roedd gennym ni'r amser i ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol ac adeiladu cymuned go iawn o berchnogion cŵn, gan geisio cael pobl i weld ochr gadarnhaol y cyfnod clo drwy archwilio ardaloedd lleol, ble yn y gorffennol efallai eu bod wedi mynd ymhellach i ffwrdd."

Gyda dros 60 eiddo eisoes wedi cofrestru ac wedi talu ar gyfer eu gwefan a gyda mwy na 50,000 o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol, sy'n rhyfeddol, mae'n amlwg bod y cwmni o Fynydd y Fflint yn ffynnu. Ond gallai eu huchelgais fod wedi lesteirio heb eu grant Adnewyddu Menter.

Yn hytrach, drwy weithio gydag asiantaeth ddylunio leol, maen nhw wedi ychwanegu swyddogaeth iCal at eu holl restri eiddo, er mwyn i ymwelwyr allu gweld a ydyn nhw ar gael heb orfod gadael y safle. Mae'n golygu eu bod yn aros yn hirach, yn edrych ar fwy o dudalennau ac yn gwneud mwy o ymholiadau.

Maen nhw hefyd wedi creu map wedi'i argraffu o "lwybrau difyr a diangfeydd perffaith i gŵn" o amgylch Gogledd Cymru a Chaer ar gyfer eu cwsmeriaid ffyddlon. Mae'n cael ei werthu drwy lwyfan e-fasnach sydd newydd gael ei ddatblygu gyda llyfrau nodiadau wedi'u brandio, mygiau a phrintiau ar y gweill.

"Mae'r map wedi bod yn llwyddiant ysgubol," meddai Rachel. "Fe wnaethon ni gynnal cystadleuaeth Instagram i ddod o hyd i sêr y gystadleuaeth gyda miloedd o geisiadau, a gofynnon ni am awgrymiadau ar gyfer hoff deithiau cerdded, cynnwys wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddwyr ac adborth i greu bwrlwm o'i chwmpas. Rydyn ni wrth ein bodd â phrint – rydw i'n credu'n gryf bod pobl eisiau rhywbeth i'w ddal, mae'n estyniad o'n brand.

"Byddai'r cyfan wedi cymryd llawer mwy o amser heb y grant. Byddem wedi gorfod gohirio'r llwyfan e-fasnach am flwyddyn o leiaf heb unrhyw ffordd effeithlon o werthu'r map, gan golli blwyddyn o werthiant i gynulleidfa a oedd yn barod ac yn aros i brynu gennym. Byddai wedi cael effaith fawr arnom ni wrth ddod yn frand mwy adnabyddus y gellir ymddiried ynddo y tu allan i'r cyfryngau cymdeithasol."

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas
LEADER
Llywodraeth Cymru
Welsh Government